**NODIADAU AR GYFER Y NEWIDIADAU**

**1. Cynnydd net o £0.495 miliwn sy’n ymwneud â phum trosglwyddiad allanol o Adrannau’r Llywodraeth.**

**2. Trosglwyddo £1.247 miliwn a £0.210 miliwn o Brif Grp Gwariant (PGG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i PGG Gwasanaethau Eraill Llywodraeth Leol.**

**3. Trosglwyddo £0.050 miliwn o PGG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i PGG Gweinyddiaeth Ganolog.**

**4. Trosglwyddiad allanol o £0.112 miliwn o’r Swyddfa Gartref ar gyfer y Gronfa Datblygu Partneriaeth (Lleihau Troseddu)**

**5. Trosglwyddo £1.695 miliwn o PGG Datblygu Economaidd i PGG Tai a Gwasanaethau Eraill Llywodraeth Leol i dalu costau Cynllun Bellwin.**

**6. Trosglwyddo £3.000 miliwn o PGG Addysg a Hyfforddiant i PGG Tai a Gwasanaethau Eraill Llywodraeth Leol i dalu costau Cynllun Bellwin.**

**7. Cario ymlaen £0.118 miliwn ar gyfer Diogelu’r Arfordir a £0.368 miliwn ar gyfer CADW.**

**8. Gostyngiad o £6.698 miliwn ar gyfer Cynlluniau Cynnal y Farchnad Amaethyddol. Mae hwn yn rhan o’r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.**

**9. Cario ymlaen £4.700 miliwn ar gyfer ariannu olynydd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a £0.210 miliwn ar gyfer yr Arolwg o’r Gweithlu.**

**10. Trosglwyddo £2.000 miliwn o PGG Datblygu Economaidd i PGG Addysg a Hyfforddiant. Trosglwyddo £0.050 miliwn o PGG Addysg a Hyfforddiant i PGG Datblygu Economaidd.**

**11. Trosglwyddiad allanol o £0.906 miliwn o’r Adran Masnach a Diwydiant ar gyfer Cronfa Phoenix. Hyn yn hyn, nid yw hwn wedi cael ei ddyrannu i’r gwahanol Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL).**

**12. £10.195 miliwn arall yn PGG Addysg a Hyfforddiant sy’n deillio o ddatganiad y Canghellor cyn y Gyllideb. Cario ymlaen £0.030 miliwn ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.**

**13. Trosglwyddo £0.490 miliwn o PGG Addysg a Hyfforddiant i PGG Estyn i ad-dalu costau arolygu cyrsiau addysg bellach.**

**14. Trosglwyddiad allanol o £0.019 miliwn o'r Swyddfa Gartref ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i PGG Estyn.**

**15. Defnyddio £1.084 miliwn o'r Gronfa Moderneiddio Llywodraeth, trosglwyddiadau allanol o £0.010 miliwn o'r Swyddfa Gartref, £0.146 miliwn o'r Bwrdd Ymyrraeth a £0.043 miliwn i'r Swyddfa Gartref. Cario ymlaen £0.100 miliwn ar gyfer Costau Cynnal CADW.**

**16. Trosglwyddo £0.038 miliwn o PGG Gweinyddiaeth Ganolog i PGG Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru i ariannu cynnydd yng ngwaith yr Ombwdsmon.**